Canllawiau Cred – Pennod 4

4

NID YN AMDDIFAD

Dechreuwn ar ein tasg trwy nodi ei bod yn arwyddocaol dros ben fod yr Arglwydd Iesu Grist, wrth hysbysu ei ddisgyblion y byddent o ganlyniad i'w weddi drostynt yn derbyn yr Ysbryd Glân o law eu Tad nefol, wedi ei alw'n Ddiddanydd *arall*. Trwy ei osod felly yr oedd, yn anuniongyrchol, yn cymhwyso'r teitl hwnnw ato'i hun! Er na cheir yn yr Efengylau dystiolaeth iddo ddefnyddio'r teitl yn unman arall i'w ddisgrifio'i hun, gallai fod wedi gwneud hynny'n hawdd. Fe fyddai'n deitl hynod addas iddo fod wedi ei ddefnyddio. Ni phetrusodd Ioan wneud hynny: 'Ac os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr [yr un gair] gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn' (1 Ioan 2:1b). Gwyddai Luc pan ddisgrifiodd Simeon fel un a oedd yn disgwyl am 'ddiddanwch' yr Israel ei fod yntau yn cyfeirio at Iesu Grist (Luc 2:25).

Myn rhai fod yr ansoddair 'arall' a ddefnyddiodd yn golygu 'arall tebyg', ond awgryma eraill na ddylid gor-bwysleisio hynny. Gan fod Iesu Grist, wrth ddefnyddio'r ansoddair, yn cyfeirio'n anuniongyrchol ato'i hun, sut bynnag, mae hynny'n ddigon o dystiolaeth ei fod yn cyffelybu'r Ysbryd Glân iddo'i hun yn hyn o beth.

Ystyr y gair 'Diddanydd' yw un sy'n dod at ochr rhywun i'w gynorthwyo a'i gysuro neu i'w amddiffyn. Mae'n amlwg mai'r hyn a oedd ganddo'n bennaf mewn golwg oedd hysbysu'r disgyblion y byddai'r Ysbryd Glân yn eu cysuro a'u cynorthwyo i gadw ei orchmynion. I fedru gwneud hynny, fe fyddai angen Cynorthwywr arnynt: un a fyddai'n abl, ymhlith llawer o gymwynasau eraill, i'w dysgu ynghylch popeth a ddywedodd wrthynt yn ogystal â'u galluogi i'w cofio a'u cyflawni.

Deirgwaith y noson honno cyfeiriodd Iesu Grist at yr Ysbryd Glân fel Ysbryd y gwirionedd. Wrth wneud hynny y tro cyntaf (Ioan 14:17) ac am y trydydd tro (Ioan 16:13), eglurodd beth fyddai'r gymwynas a gyflawnai i'w ddisgyblion. (Sôn am ei weinidogaeth i'r byd a wnaeth yn yr ail gyfeiriad, Ioan 15:26: 'Efe a dystiolaetha amdanaf fi.') Os cyplyswn yr hyn a ddywedodd Iesu Grist am ei ddyfodiad yn Ioan 14:26 (wedi iddo sôn amdano am y tro cyntaf yn cael ei roi iddynt (Ioan 14:17)) â'r hyn a ddywedodd yn Ioan 16:12-15 (wedi iddo egluro beth a ddigwyddai pan gaent eu bedyddio ag ef) fe gawn ryw amcan pa mor werthfawr fyddai ei weinidogaeth

ym mywyd y sawl a fyddai'n dymuno cadw ei orchmynion. Dyma'i eiriau:

'Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:26).

'Y mae gennyf eto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awron. Ond pan ddêl efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i'r holl wirionedd; canys ni lefara ohono'i hun, ond pa bethau bynnag a glywo a lefara efe; a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymer o'r eiddof ac a'i mynega i chwi. Yr holl bethau sydd eiddo'r Tad ydynt eiddof fi. Oherwydd hyn y dywedais mai o'r eiddof fi y cymer, ac y mynega i chwi' (Ioan 16:12-15).

Beth a allai fod yn fwy gwerthfawr i'r disgyblion na deall y byddai'r Ysbryd Glân, a fyddai 'ynddynt', yn dysgu 'popeth' iddynt, yn dwyn ar gof iddynt hefyd bob peth a ddywedodd Iesu Grist wrthynt, ac ar ben hynny y byddai'n eu tywys 'i'r holl wirionedd'? Neu, os cawn ei osod mewn termau mwy perthnasol fyth, beth a allai fod yn fwy gwerthfawr i rai a fyddai'n dymuno gweddïo 'yn enw Iesu Grist', a gallu cyflawni'r hyn y byddai Iesu Grist yn ei gyflawni, na chael ar ddeall y byddai Ysbryd y Gwirionedd ei hun yn cael ei roi iddynt i'w galluogi i sylweddoli'r dibenion hyn?

Ynoch y bydd efe

Wrth esbonio na allai'r byd 'dderbyn yr Ysbryd Glân' am nad oedd 'yn ei weled nac yn ei adnabod', y rheswm a roes Iesu Grist dros ddweud y gallai'r disgyblion ei dderbyn oedd eu bod hwy yn ei adnabod eisoes a'i fod eisoes yn 'aros' gyda hwy: *'ond chwi a'i hadwaenoch ef, oherwydd y mae yn aros gyda chwi ac ynoch y bydd efe'* (Ioan 14:17). Beth, felly, oedd perthynas y disgyblion â'r Ysbryd Glân cyn bod yr hyn a addawodd Iesu Grist yn digwydd iddynt?

Yn eu hawydd i danlinellu'r gwahaniaeth rhwng eu hadnabyddiaeth flaenorol o'r Ysbryd Glân a'r hyn a ddigwyddai iddynt o ganlyniad i'r Arglwydd Iesu Grist ei anfon atynt ar ddydd y Pentecost, cydiodd llawer o'r esbonwyr (sy'n tueddu i leihau pwysigrwydd y 'rhoi' a ddigwyddodd wedi'r Atgyfodiad) yn y gosodiad 'y mae efe yn aros gyda chwi ac ynoch y bydd efe'. Aros 'gyda'r' disgyblion yr oedd yr Ysbryd Glân o'r blaen, meddent. Ar ôl y Pentecost, fe fyddai'n trigo o'u mewn.

Ni allwn dderbyn yr esboniad hwn am y rheswm syml fod y ddau ymadrodd – 'gyda chwi' ac 'ynoch' – bron â bod yn gyfystyr ym meddwl Iesu Grist. Er enghraifft, wrth sôn am ei fewnbreswyliad ef a'i Dad yn y credadun ychydig yn ddiweddarach (Ioan 14:23), mae'n defnyddio'r ymadrodd 'gydag ef' i ddisgrifio'r berthynas honno: 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa *gydag ef*.' Ymadrodd tebyg a ddefnyddiodd i'w ddisgrifio'i hun yn ei berthynas â'i ddisgyblion wrth roi'r comisiwn iddynt i fynd allan i'r holl fyd i bregethu'r efengyl: 'Ac wele, yr ydwyf fi *gyda chwi* bob amser hyd ddiwedd y byd' (Mathew 28:20). Yn fwy argyhoeddiadol fyth, er bod Iesu Grist wedi egluro i Philip ei fod ef yn y Tad, a'r Tad ynddo yntau (Ioan 14:10), defnyddiodd yr un ymadrodd droeon i ddisgrifio'r berthynas honno: 'A'r hwn a'm hanfonodd i sydd *gyda myfi*'(Ioan 8:29); 'Ac eto nid wyf yn unig, oblegid y mae'r Tad *gyda myfi*' (Ioan 16:32).

Sut mae deall y gwahaniaeth, felly, rhwng perthynas yr Ysbryd Glân â'r disgyblion hyd at y fan yma yn eu hanes, a'r hyn fyddai'r berthynas honno pan fyddai Duw yn ateb gweddi ei Fab ar eu rhan? Ateb rhai esbonwyr yw dweud bod Iesu Grist yn cyfeirio ato'i hun. Yn gymaint â'u bod wedi ei adnabod ef, yr oeddent wedi adnabod yr Ysbryd Glân. Atebwn ninnau na allwn dderbyn hyn chwaith fel esboniad, yn bennaf oherwydd fod gormod wedi ei ddweud gan Iesu Grist ei hun am ymwneud y disgyblion â'r Ysbryd Glân, a'i ymwneud yntau â hwy, i ganiatáu inni gredu mai dyna'n unig a olygai wrth y geiriau hyn.

Er enghraifft, dywedir yn benodol am Ioan Fedyddiwr ei fod wedi ei lenwi â'r Ysbryd Glân o groth ei fam. Anogodd Iesu Grist ei ddisgyblion i ofyn i'w Tad nefol am yr Ysbryd Glân hwnnw i'w cynorthwyo i weddïo Gweddi'r Arglwydd ac i fyw'n gyson â'r weddi honno. Ei addewid oedd, 'Pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynna ganddo?' (Luc 11:13). Pan anfonodd hwy allan ar eu cenhadaeth gyntaf, fe'u sicrhaodd na fyddai'n rhaid iddynt bryderu 'pa fodd neu pa beth a lefaroch' pan gaent eu dwyn gerbron brenhinoedd a llywodraethwyr o'i achos ef, 'Canys nid chwychwi yw'r rhai sydd yn llefaru, ond Ysbryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch' (Mathew 10:19-20).

Sut mae deall y berthynas? Atebwn yn ddibetrus. *Nid yn nhermau ei leoliad y mae esbonio'r gwahaniaeth, ond yn nhermau terfynau ei weinidogaeth.* Er bod yr Ysbryd Glân 'gyda'r' disgyblion cyn hyn – fel yr oedd gyda saint yr Hen Destament hefyd, o ran hynny – *cyfyngedig iawn oedd gorwelion ei weinidogaeth.*

Gallasai fod wedi rhoi llawer iawn o wybodaeth ynghylch yr Arglwydd Iesu Grist i'r disgyblion. Roedd yn un â'r Mab o dragwyddoldeb. Y drefn, fodd bynnag, oedd ei fod yn ymatal rhag gwneud hynny. A'r rheswm am hynny (fel yr eglurodd Ioan yn ei efengyl) oedd '[na] ogoneddasid Iesu eto' (Ioan 7:39). Unwaith y digwyddai hynny, fe gâi ei 'roi' ymhellach iddynt ac fe fyddai ffiniau ei weinidogaeth gryn dipyn yn ehangach nag o'r blaen! Fel y crybwyllwyd eisoes, dechreuodd Iesu Grist ar y cyfnod hwnnw, nid wedi ei Esgyniad, ond pan atgyfododd yn ei gorff gogoneddus fore'r trydydd dydd.

Bydd atgof o'r ffilm enwog *The Sound of Music*, efallai, yn gymorth i rai ddeall hyn. Yn y ffilm honno, trawiadol oedd y fath wahaniaeth a wnaeth i'r 'athrawes gartref' (*governess*), y chwaraeid ei rhan gan Julie Andrews, pan briododd â thad y plant a oedd dan ei gofal. Yr oedd hi'n ei ganlyn cyn hynny ond gweddus oedd iddi 'gadw ei lle'. Unwaith yr oedd wedi ei briodi, fodd bynnag, gallai fynegi ei theimladau'n agored. Rhywbeth felly a ddigwyddai i'r Ysbryd Glân pan fyddai'r Arglwydd Iesu Grist wedi ei ogoneddu. Byddai ganddo bellach 'dragwyddol heol' i'w ogoneddu.

Mi a ddeuaf atoch

Awn rhagom felly at eiriau cysurlon Iesu Grist yn yr oruwchystafell ac at yr ail beth a wnâi i'w cynorthwyo – prawf pellach mai cyfeirio yr oedd Iesu Grist nid at yr hyn a ddigwyddai ar ddydd y Pentecost ond at y cyfnewidiad mawr a ddeuai i'w rhan pan ddychwelai ef ei hun atynt wedi'r Atgyfodiad:

(2) *'Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; mi a ddeuaf atoch chwi. Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch; canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd'* (Ioan 14:18-19).

Pwy all ddychmygu beth oedd graddau llawenydd y disgyblion pan welsant Iesu Grist am y tro cyntaf yn ei gorff atgyfodedig? Fe fyddai eu llawenydd mor fawr, meddai cyn eu gadael, fel na fyddai modd i neb ei ddwyn oddi arnynt. Y darlun gorau y gallai ef ei hun feddwl amdano i'w ddisgrifio oedd llawenydd mam wedi iddi roi genedigaeth i'w phlentyn – llawenydd fyddai mor fawr fel y byddai'n ymlid i ebargofiant bob atgof am y gwewyr a'r boen a'i blaenorodd. Dyma'i eiriau ychydig yn ddiweddarach y noson honno wrth gyfeirio at yr hyn a ddigwyddai pan ddychwelai atynt:

‘Ychydig ennyd ac ni’m gwelwch, a thrachefn ychydig ennyd a chwi a’m gwelwch, am fy mod yn myned at y Tad . . . Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, chwi a wylwch ac a alerwch, a’r byd a lawenycha; eithr chwi a fyddwch dristion, ond eich tristwch a droir yn llawenydd. Gwraig wrth esgor sydd mewn tristwch, am ddyfod ei hawr; eithr wedi geni’r plentyn, nid yw hi’n cofio’i gwewyr mwyach, gan lawenydd geni dyn i’r byd. A chwithau am hynny ydych yr awron mewn tristwch; eithr mi a’ch gwelaf chwi drachefn, a’ch calon a lawenycha, a’ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch’ (Ioan 16:16, 20-22).

Yr ydym i’n beio’n fawr os deuwn i’r casgliad mai’r hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost yn unig, neu hyd yn oed yn bennaf, a fu’n gyfrifol am y cyfnewidiad mawr a ddaeth dros y disgyblion fel nad oeddent mwyach yn ‘cuddio y tu ôl i ddrysau caeedig’. Yn ddiamheuol, gwnaeth yr hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost wahaniaeth aruthrol iddynt. Nid oes neb yn amau hynny. Ond fe wnaeth y profiad o weld Iesu Grist droeon yn ei gorff gogoneddus, bod am rai wythnosau dan ei weinidogaeth (yn sôn am y pethau a berthynai i deyrnas nefoedd), heb sôn am y newid a ddaeth i’w rhan wedi derbyn yr Ysbryd Glân ar ei archiad, *wahaniaeth dirfawr iddynt hefyd.* Gadawn i’r Arglwydd Iesu Grist ein goleuo ymhellach:

‘Eto ennyd bach, a’r byd ni’m gwêl mwy, eithr chwi a’m gwelwch’ (Ioan 14:19a).

Yn y geiriau hyn cyfeiria Iesu Grist at y disgyblion ‘yn ei weled’ yn y fath fodd fel y gallech feddwl nad yw ond yn gwahaniaethu rhwng y byd, a gafodd ei weled am rai blynyddoedd yn ei gorff ymgnawdoledig, a’r disgyblion a gafodd ei weled yn ei gorff atgyfodedig. Ond, pan ddeuwn at yr esboniad, deallwn ei fod yn gwneud mwy na dangos y gwahaniaeth rhwng y naill a’r llall. Fel yr eglura yn y cymal nesaf, yr hyn a fyddai’n gyfrifol am y ffaith y byddai ei ddisgyblion yn ei weld fyddai ei fod ef ei hun ‘yn fyw’, a’u bod hwythau, o’r herwydd, hefyd ‘yn fyw’:

‘Canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd’ (Ioan 14:19b).

Bob tro y cyfeiriai Iesu Grist at ‘fywyd’ neu ‘fywyd tragwyddol’, golygai adnabyddiaeth o’r Tad ac ohono ef ei hun. Eglurodd yn gynharach yn ei weinidogaeth fod y Tad wedi ‘rhoi’ y bywyd hwnnw iddo ef ac wedi ei ‘roi’ iddo yn y fath fodd fel bod ganddo’r bywyd hwnnw ‘ynddo’i hun’ ac y gallai o’r herwydd ei roi i eraill. ‘Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae’r awr yn dyfod ac yn awr y mae, pan glywo’r meirw lef Mab Duw, a’r rhai a glywant a fyddant byw. Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan,

felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun' (Ioan 5:25-26). Dweud yr oedd Iesu Grist yn awr fod yr hyn a addawodd yn gynharach yn ei weinidogaeth, 'Fel yr anfonodd y Tad byw fi ac yr ydwyf fi yn byw oblegid y Tad, felly yr hwn sydd yn fy mwyta i [hynny yw, sydd yn credu ynddo], yntau a fydd byw o'm plegid i' (Ioan 6:57), yn mynd i fod yn wir am ei ddisgyblion: *rhywbeth sy'n profi'n derfynol eu bod yn gredinwyr.*

Fel yr oedd Iesu Grist yn byw 'trwy'r Tad', fe fyddent hwythau 'byw' trwyddo ef. Hynny yw, byddai'r bywyd, a roddwyd iddynt eisoes, o fod yn adnabod y Tad a'r Mab, yn parhau! Ond nid dyna'r cyfan! Ystyriwn ei eiriau nesaf, yn bendifaddau rai o'r geiriau pwysicaf a lefarodd y noswaith honno:

'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' (Ioan 14:20).

O ganlyniad i dderbyn yr Ysbryd Glân fe gaent eu meddiannu â sicrwydd ei fod ef 'yn y Tad' a'u bod hwythau 'ynddo ef' ac yntau 'ynddynt hwy'. Fe fyddent yn dod yn ymwybodol eu bod wedi croesi'r ffin, o'r berthynas ag ef a brofasant yn nyddiau ei gnawd, i mewn i'r berthynas ag ef a fyddai'n nodweddu pob un a gredai ynddo, gan eu cynnwys hwythau, byth rhagor! Digwyddai iddynt nid ar ddydd y Pentecost ond ar 'y dydd hwnnw' pan fyddai'n dychwelyd atynt wedi'r atgyfodiad a phan fyddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt mewn ymateb i'w weddi.

Yr hyn a ddigwyddai i'r disgyblion 'y dydd hwnnw' fyddai, nid yn unig y byddent yn ei adnabod –
'byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd' – ond y byddent yn 'gwybod' eu bod bellach yn feddiannol ar yr un berthynas â'r Tad ac â'r Mab â'r berthynas a oedd rhyngddynt hwy a'i gilydd. 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau', er y byddai Iesu Grist yn sefyll o'u blaen yn ei gorff atgyfodedig pan ddigwyddai! Fe dâl inni roi sylw manwl iawn i'w eiriau.

Adolygu a manylu

O ganlyniad i'w weddïo drostynt, fe fyddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt 'yn ei enw' neu 'ar ei ran'. Digwyddai pan ddychwelai atynt yn ei gorff atgyfodedig. A'r canlyniad fyddai y caent sicrwydd na fyddent wedi colli'r bywyd a dderbyniasant eisoes o

ddod i'w adnabod a chredu ynddo. Yn hytrach fe fyddent 'yn gwybod' y byddai'n parhau gan fod yr un math o berthynas gyfriniol ag a oedd yn bodoli rhwng y Tad a'r Mab, trwy'r Ysbryd Glân, yn bodoli rhyngddynt hwythau a'r Tad ac a'r Mab. Fe fyddai hyn i gyd yn ganlyniad dau beth: (a) bod yr Arglwydd Iesu Grist yn dychwelyd atynt; (b) eu bod hwythau yn derbyn yr Ysbryd Glân gan eu Tad nefol.

Fe gaent wybod bod yr hyn a ddywedodd Iesu Grist amdano'i hun, ei fod 'yn y Tad', yn wir: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i *yn* fy Nhad.' Cyfeiriodd at y ffaith ei fod 'yn' ei Dad ychydig funudau ynghynt. 'Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?' meddai wrth Philip (Ioan 14:10). Y gwahaniaeth bellach fyddai y byddent yn gwybod bod hynny'n wir.

Yn ail, fe gaent 'wybod' eu bod hwythau 'ynddo' ef a'i fod yntau 'ynddynt' hwy: 'a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau'. Fe gaent eu meddiannu â sicrwydd y byddai'r un berthynas gyfriniol ag a oedd yn bodoli rhyngddo ef a'i Dad yn wir amdanynt hwythau yn eu perthynas ag ef. Eu hoff ddisgrifiad ohonynt eu hunain byth mwy fyddai 'yng Nghrist', a'u cyffes fyddai 'Crist ynom ni, gobaith y gogoniant'.

O safbwynt ymarferol a'r alwad i fyw y bywyd Cristnogol, fe fyddai'n gwawrio arnynt sut y gallent ddod i wybod beth oeddent i'w weddïo 'yn ei enw'. Anodd yw i ni ddychmygu beth a aeth trwy feddwl y disgyblion wrth wrando ar Iesu Grist yn dweud, ychydig yn gynharach, y byddai'r sawl a fyddai'n credu ynddo ef yn cyflawni'r un gweithredoedd ag ef, ac mai'r gweddïau a weddïent 'yn ei enw' fyddai'n rhoi gwybod iddynt beth fyddai'r gweithredoedd hynny. Sut oeddent i wybod beth fyddai'r gweithredoedd hynny, ac yntau'n eu gadael?

Cysurodd Iesu Grist hwy'n gyntaf drwy ddweud, os oeddent yn ei garu, y byddent yn trysori ac yn parchu ei orchmynion a'i Air yn ei gyfanrwydd. Fe fyddai'r wybodaeth honno ynghylch ei ewyllys ganddynt eisoes. Yna, o ganlyniad iddo weddïo ar ei Dad ar eu rhan, fe fyddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt. Byddai yntau'n 'dysgu pob peth iddynt' ac 'yn dwyn ar gof' iddynt bob peth a ddywedodd Iesu Grist wrthynt. Yna, o ganlyniad i dderbyn yr Ysbryd Glân, fe fyddent yn etifeddu'r un berthynas ag ef ac â'r Tad â'r berthynas a oedd yn bodoli rhyngddo ef a'i Dad. Lle bynnag y byddent a beth bynnag fyddai eu hamgylchiadau, byddent 'yng Nghrist' a byddai yntau, drwy'r Ysbryd Glân, 'ynddynt' hwythau!

Golygai hyn y gallent ymgynghori â'r Arglwydd Iesu Grist lle bynnag a phryd bynnag a fynnent a chael gwybod ganddo beth oeddent i weddïo amdano 'yn ei enw'. Er ei fod yn y nefoedd, trigai hefyd trwy ei Ysbryd yn eu calonnau. Yn fwy na hynny, byddai'r Arglwydd Iesu Grist, o fod yn preswylio ynddynt trwy ei Ysbryd, yn bresennol i'w galluogi i gyflawni'r hyn y byddai efe yn ei wneud!

Ychydig eiliadau'n ddiweddarach, byddai'n egluro iddynt y byddai'r Tad yn ogystal ag yntau'n dod i drigo yn eu calonnau: 'Nyni a ddeuwn ato [y sawl, o gariad at Iesu Grist, sy'n cadw ei eiriau] ac a wnawn ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:23). Beth a allai fod yn well na hyn i'r sawl a fyddai'n dymuno gweddïo gweddïau y byddent yn eu priodoli iddo ef, a chyflawni'r gweithredoedd y byddai efe yn eu cyflawni drwyddynt?

Chwi a dderbyniwch

I feddwl fod y pethau hyn yn mynd i fod yn wir ym mywyd pob un a ddeuai i gredu yn Iesu Grist ar eu hôl! Hynny a gyhoeddodd Pedr ar ddydd y Pentecost: 'A Phedr a ddywedodd wrthynt, "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant pechodau; *a chwi a dderbyniwch rodd yr Ysbryd Glân.* Canys i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant, ac i bawb ymhell, cynifer ag a alwo'r Arglwydd ein Duw ni ato"' (Actau 2:38-39). O dderbyn yr Ysbryd Glân pan gredent yn yr Arglwydd Iesu Grist, fe fyddent hwythau bob un yn mwynhau'r un berthynas ag a fyddai'n rhan i'r disgyblion pan dderbynient ef o law eu Tad nefol. 'Y dydd hwnnw', sef, yn eu hachos hwy, y dydd y byddent yn credu yn Iesu Grist, y gwybyddent hwythau 'fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau'. *Trwy fewnbreswyliad yr Ysbryd Glân yn ein calonnau y mae'r undeb cyfriniol rhyngom a'r Arglwydd Iesu Grist yn dod yn ffaith, a thrwy i'r Ysbryd Glân gyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni y deuwn ninnau i wybod bod hynny'n wir amdanom.*

Dyna paham y dywed yr apostol fod Duw wedi rhoi ei 'sêl' ar bob un o'i bobl trwy roi'r Ysbryd Glân iddynt. Swyddogaeth 'sêl' yw arwyddo perchnogaeth. Yr Ysbryd Glân yn trigo yn eu calonnau yw 'sêl' Duw, i'r personau hynny eu hunain yn ogystal ag i eraill, eu bod yn eiddo iddo. Nid yn unig hynny, fe fyddai ei dderbyn fel derbyn 'ernes' neu flaendal fod rhagor i ddilyn a bod hynny'n sicr.

'Yn yr hwn hefyd, wedi i chwi gredu, y'ch seliwyd â Glân Ysbryd yr addewid, yr

hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd lwyr bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef . . . Ac na thristewch lân Ysbryd Duw, trwy'r hwn y'ch seliwyd hyd ddydd prynedigaeth' (Effesiaid 1:13-14; 4:30).

'A'r hwn sydd yn ein cadarnhau ni gyda chwi yng Nghrist, ac a'n heneiniodd ni, yw Duw, yr hwn hefyd a'n seliodd ac a roes ernes yr Ysbryd yn ein calonnau . . . A'r hwn a'n paratôdd ni i hyn yma yw Duw, yr hwn hefyd a roddodd i ni ernes yr Ysbryd' (2 Corinthiaid 1:21; 5:5).

Camgymeriad yw dweud bod Duw yn rhoi ei sêl ar eneidiau ei bobl pan fyddant yn cael eu bedyddio â'r Ysbryd Glân neu pan fydd yr Ysbryd Glân yn cael ei dywallt arnynt. Yr Ysbryd Glân yw'r sêl a gaiff ei roi i bawb sy'n edifarhau a chredu yn Iesu Grist. Dyna'r hyn a addawodd Pedr ar ddydd y Pentecost. A dyna'n union yr hyn a addawodd Iesu Grist a fyddai'n digwydd i'r disgyblion pan dderbynient ef o law eu Tad nefol. Y dydd hwnnw, meddai, fe fyddent 'yn gwybod' – sylwer ar y ferf, 'yn gwybod' – fod Iesu Grist yn y Tad a'u bod hwythau ynddo ef a'i fod yntau ynddynt hwy.

Rhan eithriadol bwysig o weinidogaeth yr Ysbryd Glân, pan gaiff ei roi i'r sawl sy'n edifarhau ac yn credu yn Iesu Grist, yw sicrhau'r cyfryw eu bod wedi eu cymodi â Duw a'u bod yn perthyn iddo mwyach: 'Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw' (Rhufeiniaid 8:16). Does dim rhaid iddynt aros hyd nes cael eu bedyddio â'r Ysbryd Glân cyn profi'r sicrwydd hwnnw. Caiff hynny ei gadarnhau a'i gryfhau'n fawr ar adegau felly, ond fe'i rhoddir pan edifarhânt am eu pechodau a chredu yn Iesu Grist.

Un rheswm pam y mae llawer yn meddwl mai'n ddiweddarach, pan gaent eu llenwi â'r Ysbryd Glân, y byddai disgyblion Iesu Grist yn cael eu selio yw fod Iesu Grist ei hun fel pe bai'n honni mai hynny a ddigwyddodd iddo ef pan dywalltwyd yr Ysbryd Glân arno pan gafodd ei fedyddio. Cyfeiriwn at y geiriau a lefarodd wrth yr Iddewon a oedd yn dymuno'i weld wedi iddo borthi'r pum mil: 'Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi; *canys hwn a seliodd Duw Dad*' (Ioan 6:27). Does dim sicrwydd, fodd bynnag, mai hynny a olygai Iesu Grist. Y rheswm pam y mae llawer yn tueddu i gredu y gallai hynny fod yn wir yw fod y ferf 'seliodd' yn y modd Gorffennol penodol. Os yw hynny'n golygu, yn yr achos hwn, fod Iesu yn cyfeirio at ddigwyddiad penodol yn y gorffennol, at ei fedydd y byddai debycaf o fod yn cyfeirio. Fel y dywed Leon Morris yn ei esboniad ar Ioan

6:27, ‘Os yw’r ffaith fod y ferf yn y modd hwnnw yn golygu ei fod yn cyfeirio at ddigwyddiad penodol, y tebygolrwydd yw ei fod yn cyfeirio at y bedydd.’ Ond does dim sicrwydd mai felly y dylid dehongli’r geiriau.

Yn ddiamheuol, roedd yr hyn a ddigwyddodd i’r Arglwydd Iesu Grist adeg ei fedydd yn enghraifft o Dduw yn rhoi ei sêl ar berson. Ategwyd hynny yn ei achos ef trwy’r dystiolaeth lafar: ‘Hwn yw fy annwyl fab yn yr hwn y’m bodlonwyd’ a’r golomen a welodd Ioan yn disgyn ac yn aros arno. Ond camgymeriad mawr yw credu mai bryd hynny, am y tro cyntaf, y cafodd Iesu Grist ei sicrhau ei fod yn Fab Duw. Yr Ysbryd Glân yn trigo ynddo oedd sêl y Tad i’w Fab, i’r disgyblion ac i’r byd, ei fod yr hwn ydoedd. Mae’r un peth yn wir am gredinwyr. Yr Ysbryd Glân yn trigo yn eu calonnau er y dydd pryd y daethant i gredu yn Iesu Grist yw eu sêl hwythau eu bod yn blant i Dduw. Fe fyddai’n gywir ychwanegu, fodd bynnag, fod yr Ysbryd Glân pan roir ef yn llawnach yn ddiweddarach i gredinwyr – fel y rhoddwyd ef i’r Arglwydd Iesu Grist yn ei fedydd – yn parhau i gyflawni ei swyddogaeth o fod yn ‘sêl’ Duw, yn arwyddo iddynt hwy ac i eraill eu bod yn eiddo iddo.

Mae’n hanfodol bwysig cofio’r fath wahaniaeth sydd rhyngom ni a’r Arglwydd Iesu Grist. Roedd yr Ysbryd Glân ynddo o’i enedigaeth. Doedd dim angen iddo ef gael ei aileni nac i’r Ysbryd Glân ddod i’w galon bryd hynny. Fel y cawn weld (pennod 13, Y Diddanydd arall), felly y daeth ef i’r byd. Dyna’n union a ddywedodd wrth y disgyblion wrth eu gorchymyn i dderbyn yr Ysbryd Glân: ‘Megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi ... Derbyniwch yr Ysbryd Glân’ (Ioan 20:21-22). Mae angen ein haileni ni, a’r adeg honno, medd Iesu Grist, daw’r Ysbryd Glân i galonnau’r sawl sydd wedi edifarhau a chredu ynddo, a’u sicrhau eu bod yn blant i Dduw. ‘Canys i chwi y mae’r addewid, ac i’ch plant, ac i bawb ymhell, cynifer ag a alwo’r Arglwydd ein Duw ni ato’ (Actau 2:39).

Dyna’r hyn a ddigwyddodd i’r disgyblion yn yr oruwchystafell. Yr oeddent wedi credu yn Iesu Grist. Roedd yr Ysbryd Glân wedi bod ‘gyda hwy’. Yn awr roedd yr hyn a fyddai’n digwydd yn arferol i bawb a fyddai’n edifarhau ac yn credu yn Iesu Grist yn mynd i ddigwydd iddynt hwy. Roeddent yn mynd i dderbyn yr Ysbryd Glân. O’i derbyn byddai’n aros ynddynt ac fe fyddai’r holl fendithion a nodwyd ganddo yn dod yn ffaith yn eu profiad hwythau.

Cafodd y disgyblion y fraint o adnabod Iesu Grist mewn pum ffordd: (1) Fe

gawsant ei adnabod yn gyntaf, fel llaweroedd o'u cyfoedion, 'yn ôl y cnawd', hynny yw, cyn i'r Tad eu rhoi i'w Fab. (2) Yn ail, fe ddaethant i'w adnabod am yr hyn ydoedd. Dywed Iesu Grist amdanynt yn ei weddi yn yr oruwchystafell: *'A mi a ogoneddwyd ynddynt* . . . A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un: *myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi'* (Ioan 17:10b; 22-23a). (3) Yn drydydd, trwy dderbyn yr Ysbryd Glân pan ymddangosodd Iesu Grist iddynt ar noswaith gyntaf yr Atgyfodiad, cawsant groesi'r ffin o'r adnabyddiaeth gyfoethog a feddent ohono eisoes i mewn i'r adnabyddiaeth sy'n brofiad i bob un a ddaw i adnabod Iesu Grist byth oddi ar hynny. (Eu paratoi ar gyfer hynny yr oedd Iesu Grist yn yr oruwchystafell cyn eu gadael.) (4) Yn bedwerydd, yn y cyfnod a fyddai'n ymestyn o'i Atgyfodiad hyd at yr Esgyniad, cawsant y profiad cwbl unigryw o'i adnabod yn ei gorff gogoneddus. (5) Yn bumed, nid ar ddydd y Pentecost yn unig ond droeon wedi hynny yn ogystal, fe gawsant eu bedyddio neu eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac fe godwyd eu hamgyffrediad o'r berthynas a oedd rhyngddynt a'u Tad nefol ac a'r Arglwydd Iesu Grist i ddimensiwn uwch o lawer. Wedi hynny, er eu bod wedi derbyn yr Ysbryd Glân fel ei fod yn 'aros' ynddynt yn dragwyddol a chael eu bedyddio ag ef, eu harfer oedd gweddïo'n wastadol ar iddynt gael eu llenwi â'r Ysbryd Glân: 'Na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd; eithr llanwer chwi â'r Ysbryd' (Effesiaid 5:18).

Ynof fi, yn y Tad

Cyn y gallwn symud ymlaen i ystyried un gymwynas arall y bwriadai Iesu Grist ei chyflawni i gynorthwyo'i ddisgyblion i weddïo 'yn ei enw' (cyfeiriwn at adnod 21 ym mhennod 14 o Efengyl Ioan: 'A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a'i caraf ef *ac a'm hamlygaf fy hun iddo*.'), rhaid rhoi sylw i un nodwedd bwysig sydd i'r gosodiadau yr ydym newydd eu hystyried, nodwedd, hyd y gwelwn, na chaiff ei chrybwyll hyd yn oed yn yr esboniadau a barchwn fwyaf. Rhoddwn yr hanes yn llawn yn y bennod nesaf.